# Pecyn Dogfen Cyhoeddus

At: Aelodau'r Cyngor Sir

Dyddiad: 7 Ebrill 2021

Rhif Union: 01824706141

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CYNGOR SIR, DYDD MAWRTH, 13 EBRILL 2021** am **10.00 am** yn **VIA VIDEO CONFERENCE**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL YN Y RHAN HON O'R CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGAN CYSYLLTIAD** (Tudalennau 5 - 6)

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION** (Tudalennau 7 - 14)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cyngor Sir a gynhaliwyd 23 Chwefror 2021 (copi ynghlwm).

**5 TREFNIADAU AR GYFER ETHOL CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD** (Tudalennau 15 - 18)

Ystyried adroddiad gan Bennaeth y Gyfraith, AD a'r Gwasanaethau Democrataidd (copi ynghlwm) yn argymell bod y Cyngor yn cytuno i'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd arfaethedig ar gyfer blwyddyn y cyngor 2021/2022 gael eu hethol yn ffurfiol yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor ar 18 Mai 2021.

**6 NEWIDIADAU I'R CYFANSODDIAD** (Tudalennau 19 - 22)

Ystyried adroddiad gan y Swyddog Monitro (copi ynghlwm) yn argymell bod y Cyngor ddiweddaru darpariaethau'r Cyfansoddiad ar gyfer presenoldeb o bell mewn cyfarfodydd a Phwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio'r Cyngor.

**7 PENODI SWYDDOG COFRESTRU ETHOLIADOL A SWYDDOG CANLYNIADAU** (Tudalennau 23 - 26)

Ystyried adroddiad gan y Swyddog Monitro (copi ynghlwm) yn gofyn am gymeradwyaeth i benodi Swyddog Cofrestru Etholiadol a Swyddog Canlyniadau.

**8 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR SIR** (Tudalennau 27 - 32)

Ystyried Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor (copi ynghlwm).

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies (Cadeirydd)

Y Cynghorydd Alan James (Is-Gadeirydd)

Mabon ap Gwynfor
Brian Blakeley
Joan Butterfield
Jeanette Chamberlain-Jones
Ellie Chard
Ann Davies
Gareth Davies
Peter Arnold Evans
Hugh Evans
Bobby Feeley
Rachel Flynn
Tony Flynn
Huw Hilditch-Roberts
Martyn Holland
Alan Hughes
Hugh Irving

Barry Mellor
Melvyn Mile
Bob Murray
Merfyn Parry
Paul Penlington
Pete Prendergast
Arwel Roberts
Anton Sampson
Peter Scott
Glenn Swingler
Andrew Thomas
Rhys Thomas
Tony Thomas
Julian Thompson-Hill
Graham Timms
Joe Welch

Brian Jones
Pat Jones
Tina Jones
Gwyneth Kensler
Geraint Lloyd-Williams
Richard Mainon
Christine Marston

Cheryl Williams
David Williams
Eryl Williams
Huw Williams
Emrys Wynne
Mark Young

**COPIAU I'R:**

Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000**

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

**Cod Ymddygiad Aelodau**

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

| | |
|---|---|
| Rwyf i,<br>(enw) | |
| *Aelod /Aelod cyfetholedig o<br>*(*dileuer un)* | **Cyngor Sir Ddinbych** |

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
*(*dileuer un)*

| | |
|---|---|
| Dyddiad Datgelu: | |
| Pwyllgor (nodwch): | |
| Agenda eitem | |
| Pwnc: | |
| Natur y Buddiant:<br>*(Gweler y nodyn isod)** | |
| Llofnod | |
| Dyddiad | |

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**CYNGOR SIR**

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd yn via VIDEO CONFERENCE, Dydd Mawrth, 23 Chwefror 2021 am 10.00 am.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr Brian Blakeley, Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones, Ellie Chard, Ann Davies, Gareth Davies, Meirick Davies (Cadeirydd), Peter Arnold Evans, Hugh Evans, Bobby Feeley, Rachel Flynn, Tony Flynn, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Holland, Hugh Irving, Alan James (Is-Gadeirydd), Brian Jones, Pat Jones, Tina Jones, Christine Marston, Barry Mellor, Melvyn Mile, Bob Murray, Merfyn Parry, Paul Penlington, Pete Prendergast, Arwel Roberts, Anton Sampson, Peter Scott, Glenn Swingler, Rhys Thomas, Tony Thomas, Julian Thompson-Hill, Graham Timms, Joe Welch, Cheryl Williams, David Williams, Eryl Williams, Huw Williams, Emrys Wynne a/ac Mark Young

**HEFYD YN BRESENNOL**

Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau (NS), Cyfarwyddwr Corfforaethol – Yr Economi a'r Parth Cyhoeddus (GB), Pennaeth y Gyfraith, AD a Gwasanaethau Democrataidd (GW), Pennaeth Cyllid ac Eiddo (SG), Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol (TW), Swyddog Cynllunio a Pherfformiad Strategol (HB-P), Rheolwr y Rhaglen Newid Hinsawdd (HV-E), Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (SP), Lletywr Zoom a Gweddarlledwr (SJ), a Gweinyddwr Pwyllgorau (SLW)

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Mabon ap Gwynfor, Gwyneth Kensler, Geraint Lloyd-Williams a/ac Richard Mainon

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Bobby Feeley gysylltiad personol yn Eitem 5 (Osgoi a Lleihau Plastigau yng Nghyngor Sir Ddinbych) am ei bod yn Aelod o Fwrdd Hamdden Sir Ddinbych.

## 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Nid oedd unrhyw faterion brys.

Cwestiwn a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Arwel Roberts ar ran grŵp Plaid:

"Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried yn y gwasanaethau y mae CSDd yn eu cynnig ar hyn o bryd i ddinasyddion â nam ar eu golwg?"

Cadarnhaodd y Cynghorydd Roberts ei fod wedi derbyn ymateb gan y Cynghorydd Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth, a dywedodd y bydd yn rhannu hwn â'r Aelodau er gwybodaeth.

Cwestiwn a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Glenn Swingler ar ran grŵp Plaid:

"Mae CSDd yn cefnogi llawer o ganolfannau sy'n rhoi cyfleoedd gwaith i bobl ag anawsterau dysgu. Ar hyn o bryd maen nhw ar gau oherwydd Covid, fy nghwestiwn i ydi:

Pan fydd llacio'r cyfyngiadau'n caniatáu hynny, a fydd cyfleusterau sy'n darparu cyfleoedd gwaith a hyfforddiant ar gyfer pobl ag anableddau yn ailagor fel o'r blaen?"

Ymateb y Cynghorydd Bobby Feeley -

"Cynhaliwyd adolygiad o wasanaethau mewnol sy'n cynnig cyfleoedd gwaith yn 2019/20 ac roedd y camau gweithredu'n cael eu rhoi ar waith yn 2020 wrth i ni fynd i mewn i'r cyfnod clo cyntaf. Er bod y gwasanaethau wedi bod ar gau, rydym wedi parhau i weithio tuag at gyflawni'r argymhellion yn yr adolygiad; yn ogystal, mae angen i ni ystyried Covid a'r gofyniad parhaus i sicrhau y darperir unrhyw wasanaethau'n ddiogel yn y dyfodol. Mae'n annhebygol felly y bydd y gwasanaethau yn union fel yr oeddent o'r blaen, fodd bynnag rydym yn ymrwymedig o hyd i gyflawni'r argymhellion yn yr adolygiad a sicrhau bod defnyddwyr y gwasanaethau hyn yn cael mynediad at gefnogaeth o'r safonau uchaf yn y dyfodol. Byddwn yn ymgynghori â'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau a'u teuluoedd ynghylch unrhyw newidiadau angenrheidiol er mwyn sicrhau y gellir diwallu deilliannau cytunedig yr unigolion hyn hyd o leiaf yr un safonau ag o'r blaen.

O ran gwasanaethau dydd ar gyfer pobl ag Anableddau Dysgu sydd wedi'u contractio allan, mae Co-options wedi aros ar agor ond dim ond ar gyfer nifer cyfyngedig o unigolion. Caiff presenoldeb ei benderfynu ar sail achos wrth achos yn amodol ar asesiadau risg ac ati, ac ar hyn o bryd dim ond unigolion yr aseswyd bod presenoldeb yn hanfodol ar gyfer eu lles meddyliol sy'n mynychu. Mae'r sefyllfa yr un fath ar gyfer Prifysgol Glyndŵr. Pan fydd llacio'r cyfyngiadau'n caniatáu hynny, mae'n debyg y bydd y ddwy ganolfan yn dechrau gweithredu fwy neu lai fel yr oeddent cyn y Nadolig a'r cyfnod clo diweddaraf. Mae niferoedd wedi'u lleihau i gydymffurfio ag asesiadau risg ac oherwydd y newidiadau a wnaed yn y gwahanol sefydliadau i gydymffurfio â'r canllawiau Covid ac i sicrhau bod digon o le i gadw pellter cymdeithasol ac ati."

Gofynnodd y Cynghorydd Glenn Swingler gwestiwn atodol -

"O'r rhai sydd ar gau ar hyn o bryd, pe bai'r cyfnod clo yn darfod, ydi'r cyfleusterau hyn yn barod i agor ar unwaith?"

Ateb y Cynghorydd Bobby Feeley -

"Mae rhai yn barod, gyda gobaith bydd popeth mewn trefn ac yn barod. Gallaf anfon rhestr atoch gyda rhagor o wybodaeth."

**4 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y Cyngor Llawn a gynhaliwyd ar 26 Ionawr 2021.

Materion yn Codi – Eitem 3, Materion Brys: Gofynnodd y Cynghorydd Peter Scott am ddiweddariad ar lifogydd.

Dywedodd yr Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd, y Cynghorydd Brian Jones, y cafwyd cyfathrebiad yn ddiweddar gan Gyfoeth Naturiol Cymru am lifogydd mis Chwefror 2020 ac y bydd y wybodaeth ar gael o fewn y pythefnos nesaf. Mae CNC wedi gwneud gwaith interim yn Rhuthun lle gorlifodd yr afon ac maent wedi cadarnhau y bydd gwaith trwsio parhaol wedi'i wneud erbyn yr Hydref.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: yr Economi a'r Parth Cyhoeddus, Graham Boase, bod CNC yn gweithio mewn partneriaeth â CSDd a bod aelodau a phreswylwyr lleol yn cael diweddariadau cyson.

CYNIGIWYD gan y Cynghorydd Cheryl Williams ac EILIWYD gan y Cynghorydd Alan James y dylid derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Ionawr 2021.

Cafwyd pleidlais a chytunwyd yn unfrydol i dderbyn y cofnodion fel cofnodion cywir.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 26 Ionawr 2021 a'u cadarnhau fel cofnod cywir**.***

**5 OSGOI DEFNYDDIO A LLEIHAU LEFELAU PLASTIG YNG NGHYNGOR SIR DDINBYCH**

Cyflwynodd y Cynghorydd Arwel Roberts adroddiad Osgoi a Lleihau Plastigau yng Nghyngor Sir Ddinbych (a gylchredwyd ymlaen llaw).

Ar 22 Rhagfyr 2020 cynhaliwyd Cyfarfod Arbennig o'r Pwyllgor Craffu Perfformiad a chyflwynwyd argymhellion ynghylch sut y gallai'r Cyngor leihau'r defnydd o blastigau.

Cyflwynodd y Grŵp Tasg a Gorffen, dan gadeiryddiaeth y Cynghorydd Emrys Wynne, gynllun gweithredu i leihau'r defnydd o blastigau.

Ddiwedd Ionawr 2020, cymeradwyodd y Cyngor Llawn yr argymhellion a gynhwyswyd yng nghynllun gweithredu cychwynnol y Grŵp Tasg a Gorffen i leihau'r defnydd o blastigau mewn swyddfeydd dinesig (Cam 1). Cytunodd y Cyngor Llawn hefyd i gais y Grŵp i barhau ei waith am 12 mis arall er mwyn dyfeisio dulliau o leihau'r defnydd o blastigau mewn dau faes penodol – sef arlwyo ysgolion a chaffael (Cam 2). Ychydig wythnosau wedi i'r penderfyniad uchod gael ei wneud, trawodd pandemig COVID-19, a chyflwynwyd cyfnod clo ar draws y wlad.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r argymhellion a gynigiwyd yn dilyn cyfarfod diweddar o'r Grŵp Tasg a Gorffen ar y Defnydd o Blastigau, lle roedd y grŵp yn cydnabod llwyddiannau Cam 1 o ran lleihau'r defnydd o blastigau mewn swyddfeydd dinesig ac yn ystyried ffordd ymlaen o ran y gwaith y gofynnwyd iddo'i

gyflawni, ond methwyd â symud ymlaen at Gam 2 (Arlwyo Ysgolion a Chaffael) oherwydd y pandemig.

Diolchodd yr aelodau i'r Swyddog Cynllunio Strategol a Pherfformiad, Heidi Barton-Price, am ei gwaith gyda'r Grŵp Tasg a Gorffen.

Cynigiodd y Cynghorydd Arwel Roberts yr adroddiad, ac eiliwyd gan y Cynghorydd Emrys Wynne.

Cafwyd pleidlais a chytunodd mwyafrif i dderbyn yr adroddiad. Ymataliodd y Cynghorydd Ann Davies o'r bleidlais gan nad oedd hi'n bresennol ar gyfer yr holl drafodaeth.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cyngor yn ystyried ac yn gwneud sylwadau ar waith y Grŵp Tasg a Gorffen hyd yma ac yn cymeradwyo argymhellion y Pwyllgor Craffu Perfformiad:*

*(i) o ystyried yr amgylchiadau presennol oherwydd pandemig byd-eang COVID-19, na ddylai Cam 2 gwaith y Grŵp fynd yn ei flaen, ac y dylid dirwyn y Grŵp Tasg a Gorffen i ben;*

*(ii) bod cyfleoedd i leihau'r defnydd o blastigau yn nhrefniadau arlwyo a chaffael ysgolion, ynghyd ag unrhyw waith i'r dyfodol o ran osgoi a lleihau'r defnydd o blastigau yng Nghyngor Sir Ddinbych (yn cynnwys ei Fodelau Cyflwyno Amgen megis Hamdden Sir Ddinbych Cyf) yn cael eu cydlynu o dan y Strategaeth Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol arfaethedig;*

*(iii) bod cais i'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu benderfynu ar y fforwm mwyaf effeithiol ar gyfer monitro gweithredu a chyflawni lleihau'r defnydd o blastigau o fewn Cyngor Sir Ddinbych a Strategaeth Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol ehangach y Cyngor.*

## 6 STRATEGAETH NEWID HINSAWDD A NEWID ECOLEGOL CYNGOR SIR DDINBYCH

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd, y Cynghorydd Brian Jones, adroddiad ar Strategaeth Newid Hinsawdd ac Ecolegol Cyngor Sir Ddinbych (2021 - 2029) (wedi'i ddosbarthu eisoes).

Datganodd y Cyngor Argyfwng Newid Hinsawdd ac Ecolegol ar 9 Gorffennaf 2019 a oedd yn nodi cyfres o gamau gweithredu ar gyfer CSDd yn cynnwys y nod i'r Cyngor fod yn garbon sero net erbyn 2030 fan bellaf, er mwyn gwella bioamrywiaeth Sir Ddinbych a llunio cynllun clir ar gyfer gwireddu hyn.

Bydd rhai o'r newidiadau a'r camau gweithredu a nodir yn y Strategaeth yn gofyn am fuddsoddiad cyfalaf, bydd eraill yn gofyn am gyllid refeniw a rhai y gellir eu darparu am ddim cost ychwanegol. Byddai llawer o'r newidiadau a'r camau gweithredu yn arbed arian i'r Cyngor yn yr hirdymor. I gyflawni'r strategaeth dros y 3 blynedd nesaf byddai'n costio oddeutu £9 miliwn o bunnoedd i ddarparu'r prosiectau sy'n angenrheidiol i gyflawni'r holl amcanion.

Rhoddodd yr Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau, y Cynghorydd Tony Thomas, ddiweddariad i'r aelodau fel a ganlyn:

- Mae plannu coed yn mynd yn ei flaen yn dda  Erbyn hyn mae swyddog coed llawn amser wedi'i benodi a dau swyddog arall wedi'u cyflogi am 12 mis.
- Mae Swyddog Gweundiroedd hefyd wedi'i benodi sy'n cael ei noddi 50% gan Gyfoeth Naturiol Cymru.
- Mae clefyd coed ynn yn parhau i fod yn broblem

Cyfeiriodd Rheolwr y Rhaglen Newid Hinsawdd at darged Llywodraeth Cymru o Gymru ddi-garbon erbyn 2050 ac at gyngor y Pwyllgor Newid Hinsawdd ar leihau carbon ac amsugno er mwyn capio'r tymheredd Cynhesu Byd-eang a chyfyngu ar effaith newid hinsawdd a bioamrywiaeth.  Mae'r Strategaeth yn cynrychioli cyfraniad y Cyngor at daclo'r argyfwng hinsawdd a natur a helpu Cymru i ddiwallu ei huchelgeisiau di-garbon a chyflawni ei dyletswyddau bioamrywiaeth.  Cafodd ei gynhyrchu mewn cydweithrediad ar draws y Cyngor a gydag aelodau'r cyhoedd ac mae'n rhoi gweledigaeth y Cyngor ar gyfer 2030 ynghyd â map ffordd tuag at gyflawni hyn a gwireddu'r manteisio o ostyngiad mewn carbon, cynyddu amsugniad carbon a gwella rhywogaethau ynghyd â'r sgil-fanteision i'r economi, iechyd a lles.

Cynigiodd Brian Jones yr adroddiad ar Strategaeth Newid Hinsawdd ac Ecolegol CSDd a chafodd ei eilio gan y Cynghorydd Christine Marston.

Cafwyd pleidlais a chytunwyd yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad.

***PENDERFYNWYD:***

- *Bod y Cyngor yn cymeradwyo mabwysiadu Strategaeth Newid Hinsawdd ac Ecolegol Cyngor Sir Ddinbych (2021/22 - 2029/30).*
- *Bod y Cabinet yn cadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad A) fel rhan o'u hystyriaethau.*

**7 TRETH Y CYNGOR 2021/22 A MATERION CYSYLLTIEDIG**

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol, y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Adroddiad Treth y Cyngor 2021/22 a Materion Cysylltiol (a gylchredwyd ymlaen llaw) i osod lefelau Treth y Cyngor ar gyfer 2021/2022.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Thompson-Hill at y canlynol yn benodol:

- Prif nodweddion y gyllideb a gymeradwywyd yn y Cyngor llawn ar 26 Ionawr 2021
- Sylwadau'r Pennaeth Cyllid ac Eiddo ar gryfder yr amcangyfrifon cyllidebol a digonolrwydd y cronfeydd wrth gefn
- Dadansoddiad o'r praeseptau gan Gynghorau Dinas, Tref a Chymuned a Chomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru
- Argymhellion ar gyfer lefelau Treth y Cyngor 2021/2022
- Setliad cadarnhaol o +3.6% yn refeniw Llywodraeth Leol y Cyngor gan Lywodraeth Cymru.

Yn ystod y trafodaethau, dywedodd Aelodau o Grŵp Plaid eu bod wedi pleidleisio yn erbyn adroddiad Cynigion Terfynol Cyllideb 2021/2022 yng nghyfarfod y Cyngor ar 26 Ionawr 2021. Cadarnhaodd yr Aelod Arweiniol, y Cynghorydd Julian

Thompson-Hill bod y mwyafrif o aelodau wedi pleidleisio o blaid yr adroddiad, ac felly, roedd y canlyniad yn eu rhwymo.

Cynigiodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill i dderbyn Adroddiad Treth y Cyngor a Materion Cysylltiol 2021/2022, a chafodd ei eilio gan y Cynghorydd Hugh Evans.

Cynhaliwyd pleidlais a chytunwyd yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad.

***PENDERFYNWYD:***

*(i) Mae'n ofynnol i'r Cyngor Sir, fel yr Awdurdod Bilio, ystyried y praeseptau sydd wedi'u derbyn gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a'r Cynghorau Tref/Cymuned a chyhoeddi lefelau Treth y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22.*

*(ii) Argymhellir bod y symiau a gyfrifwyd gan y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22, yn unol ag Adrannau 32 i 34 (1) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (y Ddeddf) a'r Rheoliadau Addasu Cyfrifiadau Angenrheidiol (Cymru) 2008 fel ag y maent yn adran 3 Atodiad A.*

*(iii) Argymhellir bod y symiau a gyfrifwyd gan y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22, yn unol ag Adrannau 34 (2) i 36 (1) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (y Ddeddf) fel ag y maent yn adran 4 Atodiad A.*

*(iv) Bod y symiau Treth y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22 ar gyfer pob un o'r categorïau o anheddau fel y'u cyflwynir yn Atodiad C.*

*(v) Bod lefel y gostyngiad ar gyfer Dosbarth A, B a C fel y nodir yn Rheoliadau Treth y Cyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) 2004 yn cael ei gosod ar sero ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22 gyda'r cafeat bod hyn yn ddibynnol ar ddim newidiadau i ddeddfwriaeth nac amodau lleol.*

## 8 CYNLLUN CYFALAF 2020/21 - 2023/24 AC ARGYMHELLION Y GRŴP BUDDSODDI STRATEGOL

Cyflwynodd Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol, y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Adroddiad Cynllun Cyfalaf 2020/2021 – 2023/2024 (a gylchredwyd ymlaen llaw) i ddarparu'r Cynllun Cyfalaf diweddaraf i'r Aelodau, ynghyd â'r wybodaeth ddiweddaraf am brosiectau mawr a'r Cynllun Corfforaethol.

Cafodd y Cyngor yr adroddiad diwethaf ar y Cynllun Cyfalaf llawn ym mis Chwefror 2020. Mae'r Cabinet wedi bod yn cael diweddariadau misol. Roedd y Cynllun Cyfalaf Amcangyfrifedig bellach yn £42.36miliwn. Mae'r Cynllun wedi cael ei ddiweddaru ers i'r Cabinet gael adroddiad arno ar 16 Chwefror 2021.

Arweiniodd y Cynghorydd Thompson-Hill yr Aelodau drwy'r adroddiad.

Ymatebodd y Cynghorydd Thompson-Hill a'r Pennaeth Cyllid ac Eiddo i gwestiynau ynglŷn ag amrywiol agweddau ar y Cynllun Cyfalaf. Roedd y prif feysydd trafod yn canolbwyntio ar y canlynol:

- Mater llifogydd, a gofynnodd aelodau a fyddai arian ar gael i brosiectau i gynorthwyo ardaloedd a fyddai wedi dioddef llifogydd. Cadarnhawyd bod ffrydiau cyllid gan Lywodraeth Cymru y gellid cael mynediad atynt ar gyfer ardaloedd fyddai wedi dioddef llifogydd difrifol. Cyfrifoldeb Cyfoeth Naturiol

Cymru yw peth o'r gwaith amddiffyn o amgylch afonydd. Cyfrifoldeb Cyfoeth Naturiol Cymru, ac nid Cyngor Sir Ddinbych, oedd y llifogydd yn Rhuthun. Cydweithiodd Cyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Sir Ddinbych i liniaru'r problemau. Roedd Craffu wedi sefydlu Grŵp Tasg a Gorffen i ddelio â phob agwedd ar lifogydd.

- Codwyd gwaith trwsio pontydd, a chadarnhawyd bod dyraniad o £403,000 ar gael ar gyfer gwaith arferol i bontydd. Byddai'r tîm perthnasol yn blaenoriaethu'r gwaith i bontydd y gellid ei gyflawni. Mae gwaith i bontydd yn cael ei gynllunio a'i gymeradwyo'n flynyddol.
- Rhoddodd Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd, y Cynghorydd Brian Jones, wybod i'r aelodau fod Llywodraeth Cymru yn sefydlu cynlluniau ar gyfer ariannu. Roedd Pennaeth y Gwasanaeth yn llunio achos busnes er mwyn cael ymrwymiad o hyd at £4miliwn y flwyddyn.

Cynigiodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill y dylid derbyn Cynllun Cyfalaf 2020/21 – 2023/24 ac argymhellion adroddiad y Grŵp Buddsoddi Strategol, ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Hugh Evans.

Cynhaliwyd pleidlais, a chytunwyd yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad.

***PENDERFYNWYD:***

(i) Nodi sefyllfa ddiweddaraf elfen 2020/21 y Cynllun Cyfalaf a'r diweddariad ynghylch y prosiectau mawr.
(ii) Cefnogi cymeradwyaeth y Cabinet ac argymhelliad y Grŵp Buddsoddi Strategol fel y nodir yn Atodiad 5 ac a grynhoir yn Atodiad 6.
(iii) Cymeradwyo Cynllun Cyfalaf 2021/22.
(iv) Cymeradwyo Adroddiad Strategaeth Cyfalaf 2021/22 fel y manylir yn Atodiad 7

**9 DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS 2021/22 A DANGOSYDDION DARBODUS 2020/21 I 2022/23**

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol, y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Ddatganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2021/22 ac Adroddiad ar Dangosyddion Darbodus 2020/21 – 2022/23 (wedi'u dosbarthu eisoes) i geisio cymeradwyaeth y Cyngor ar gyfer Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (TMSS) 2020/2021 a Dangosyddion Ariannol 2020/2021 i 2022/2023.

Mae Cod Ymarfer y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg ar Reolaeth Trysorlys yn gofyn bod y cyngor yn cymeradwyo'r Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Dangosyddion Darbodus yn flynyddol.

Wrth fuddsoddi, blaenoriaethau'r Cyngor yw:

- cadw arian yn ddiogel (diogelwch)
- sicrhau bod yr arian yn dod yn ôl pan fydd ei angen (hylifedd)
- sicrhau ein bod yn cael cyfradd elw dda (arenillion)

Cynigiodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill y dylid derbyn Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2021/22 a'r Adroddiad ar Ddangosyddion Darbodus

2020/21 – 2022/23, ac chafodd ei eilio gan y Cynghorydd Jeanette Chamberlain-Jones.

Cafwyd pleidlais a chytunwyd yn unfrydol i dderbyn yr adroddiad.

***PENDERFYNWYD:***

*(i) Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r DSRhT ar gyfer 2021/22 (Atodiad 1).*

*(ii) Bod y Cyngor yn cymeradwyo gosod y Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2021/22. 2022/23 a 2023/24 (Atodiad 1 Ychwanegiad A).*

*(iii) Bod y Cyngor yn derbyn y Datganiad Darpariaeth Isafswm Refeniw (atodiad 1, Adran 6).*

*(iv) Bod y Cyngor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac wedi ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad 2) fel rhan o'i ystyriaethau.*

**10 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR SIR**

Cyflwynodd Pennaeth y Gyfraith, AD a Gwasanaethau Democrataidd Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor, ynghyd â Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol Briffio'r Cyngor (a ddosbarthwyd ymlaen llaw).

***PENDERFYNWYD*** *y dylid cymeradwyo a nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor a Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol Briffio'r Cyngor.*

**Daeth y cyfarfod i ben am 1.15 pm.**

sir ddinbych denbighshire — Cyngor / County Council

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cyngor |
| **Dyddiad y Cyfarfod** | 13 Ebrill 2021 |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol** | Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd |
| **Awdur yr Adroddiad** | Gary Williams, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd |
| **Teitl** | Trefniadau Ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Y trefniadau ar gyfer ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ddinesig 2021 / 2022.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Bydd Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor yn cael eu hethol yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor ym mis Mai. Pwrpas yr adroddiad yw cytuno ar y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd arfaethedig ar gyfer blwyddyn ddinesig 2021 / 22 sydd i'w hethol yn ffurfiol yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Cyngor yn cytuno y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd arfaethedig ar gyfer y flwyddyn ddinesig 2021 / 2022 a fydd yn cael eu hethol yn ffurfiol yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor ar y 18fed Mai 2021.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Yn 2006, cytunodd y Cyngor gyda chasgliadau'r Panel Moderneiddio blaenorol, bod y weithdrefn flaenorol pan gynhelid cyfarfod y Cyngor i ystyried enwebiadau heb unrhyw sicrwydd go iawn ynglŷn â phwy fyddai'n cael eu hethol yn Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor, yn tynnu oddi wrth urddas yr achlysur.

4.2. Penderfynodd y Cyngor y dylid mynd i'r afael â'r trefniadau ar gyfer ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd yn y cyfarfod a gynhelir cyn Cyfarfod Blynyddol y Cyngor.

4.3. Is-Gadeirydd presennol y Cyngor yw'r Cynghorydd Alan James. Y traddodiad yw bod Is-Gadeirydd presennol y Cyngor yn cael ei ethol yn Gadeirydd y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ddinesig nesaf.

4.4. Gofynnwyd i Arweinwyr Grŵp ddarparu enwebiadau ar gyfer rôl Is-gadeirydd y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ddinesig nesaf ac roedd y Cynghorydd Christine Marston wedi ei henwebu.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Nid yw rolau Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor yn effeithio'n uniongyrchol ar y blaenoriaethau corfforaethol.

## 6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Ar hyn o bryd telir cyflogau dinesig o £23,161 ac £18,108 i Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor yn y drefn honno.  Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys y cyflog sylfaenol a delir i bob aelod.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen asesiad o effaith mewn perthynas â'r penderfyniad..

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Ymgynghorwyd ag Arweinwyr Grŵp o ran enwebu aelodau ar gyfer rôl Is-Gadeirydd y Cyngor.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn deillio o'r argymhelliad hwn.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae risg i enw da'r Cyngor os nad oes sicrwydd ynglŷn â phwy yw’r Cadeirydd ac Is-gadeirydd arfaethedig yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. Adran 4 o Gyfansoddiad y Cyngor.

11.2. Adran 4 Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Cyngor |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 13 Ebrill 2021 |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog:** | Gary Williams, Swyddog Monitro |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Steve Price, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| **Teitl** | Diwygiadau i'r Cyfansoddiad |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â diwygiadau i Gyfansoddiad y Cyngor i adlewyrchu adrannau o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 sy'n cael eu dechrau.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Er mwyn i'r Cyngor ddiweddaru darpariaethau'r Cyfansoddiad ar gyfer mynychu cyfarfodydd o bell ac ar gyfer Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio'r Cyngor.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Cyngor yn diwygio'r Cyfansoddiad trwy'r ddisodli'r geiriad presennol yn Adran 4.17 gyda'r canlynol:

*"Caniateir mynychu o bell ym mhob cyfarfod, pwyllgor ac is-bwyllgor, cyn belled â bod yr unigolion sy'n cymryd rhan yn gallu siarad â'i gilydd a chlywed ei gilydd. Yn achos cyfarfodydd y mae'n ofynnol dan y gyfraith i'w darlledu, dylai cyfranogwyr allu siarad â'i gilydd, clywed ei gilydd a gweld ei gilydd";*

3.2. Bod y Cyngor yn diwygio enw'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio i 'Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio';

3.3. Bod y Cyngor yn awdurdodi'r Swyddog Monitro i ddiwygio geiriad Adran 13 y Cyfansoddiad sy'n ymwneud â chylch gorchwyl a chyfrifoldebau'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio, er mwyn adlewyrchu darpariaethau Deddf 2021 sy'n ymwneud â chwynion a dyletswyddau asesu perfformiad a ddaw i rym o 1 Mai 2021.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1. Er mwyn caniatáu i awdurdodau lleol barhau i weithredu dan gyfyngiadau Covid-19, cyflwynodd Llywodraeth Cymru Reoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020 a ddaeth i rym ar 22 Ebrill 2020. Mae'r Rheoliadau yn caniatáu mynychu cyfarfodydd o bell, waeth beth yw'r darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yng nghyfansoddiad awdurdod lleol. Mae'r Rheoliadau hyn yn rhai dros dro ac ni fyddant yn berthnasol ar ôl 30 Ebrill 2021. Fodd bynnag, o'r adeg honno, daw darpariaethau Adran 47 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (cyfeirir ati o hyn ymlaen fel y 'Ddeddf') i rym.

4.2. Mae Adran 47 y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau o 1 Mai i sicrhau bod eu cyfarfodydd yn gallu cael eu cynnal o bell.

4.3. Ar hyn o bryd, nid yw'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarlledu cyfarfodydd, er bod Sir Ddinbych wedi bod yn darlledu cyfarfodydd penodol ers 2013. Gan fod Covid-19 wedi arwain at gau adeiladau, mae'r Cyngor wedi bod yn darlledu bron pob un o'r cyfarfodydd y byddai'r cyhoedd wedi gallu eu mynychu fel arfer. Dan y Ddeddf, bydd rhaid i Sir Ddinbych ddarlledu cyfarfodydd y Cyngor llawn a disgwylir i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau o ran cyfarfodydd eraill mae'n rhaid eu darlledu.

4.4. Mae gan y Cyngor bwyllgor 'archwilio' statudol, sef y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio. Mae'r Ddeddf yn newid enw'r Pwyllgor hwn i 'Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'. Mae'r Ddeddf hefyd yn ymestyn cylch gwaith statudol y Pwyllgor i adolygu ac asesu gallu'r Cyngor i drin cwynion yn effeithiol, a gwneud adroddiadau ac argymhellion wedi hynny. Mae hefyd yn creu rôl i'r Pwyllgor yn y broses asesu perfformiad newydd.

4.5. O fis Mai 2022, bydd y Ddeddf yn cyflwyno newidiadau i aelodaeth y Pwyllgor sy'n golygu y bydd angen i gadeirydd y Pwyllgor fod yn aelod lleyg a bydd gofyn

i draean o'r aelodau fod yn aelodau lleyg. Bydd angen diwygiad pellach i gylch gorchwyl y Pwyllgor bryd hynny.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Nid yw'r penderfyniadau hyn yn cyfrannu'n uniongyrchol at y Blaenoriaethau Corfforaethol.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Ni ddisgwylir i'r penderfyniadau a geisir heddiw gynyddu costau. Bydd Llywodraeth Cymru yn nodi mewn Rheoliadau pa gyfarfodydd y mae'n rhaid eu darlledu, a gallai hyn effeithio ar gostau darlledu.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen asesiad ar gyfer yr adroddiad hwn.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Mae darpariaethau Deddf 2021 wedi'u trafod mewn sesiwn friffio anffurfiol gydag aelodau etholedig, gyda'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio a'r Pwyllgor Safonau.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol yn deillio o'r adroddiad hwn, er y bydd ar y Cyngor angen aros am reoliadau darlledu pellach i gael eglurder ar y costau hynny. Bydd yr estyniad i aelodaeth leyg y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio o fis Mai 2022 yn gofyn am ragor o arian ar gyfer lwfansau mynychu a ymrwymiadau amser.

Gobeithir y gellir cadw unrhyw gynnydd mewn costau o fewn cyllidebau presennol y meysydd gwasanaeth, fodd bynnag gellir codi unrhyw faterion drwy'r broses flynyddol o osod y gyllideb.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae'r penderfyniadau a geisir yn ofynion statudol.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. Adran 47 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (trefniadau ac amodau i unigolion nad ydynt yn yr un lle fynychu cyfarfodydd awdurdod lleol);

11.2. Adran 115 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (enw newydd a swyddogaethau pwyllgorau archwilio);

11.3. Adran 37 Deddf Llywodraeth Leol 2000 (paratoi a chadw cyfansoddiad ysgrifenedig wedi'i ddiweddaru).

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cyngor Sir |
| **Dyddiad y Cyfarfod** | 13$^{eg}$ Ebrill 2021 |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol** | Cynghorydd Hugh Evans, Arweinydd |
| **Awdur yr Adroddiad** | Gary Williams, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd |
| **Teitl** | Penodi Swyddog Cofrestru Etholiadol a Swyddog Canlyniadau |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad yn ymwneud â phenodi Swyddog Cofrestru Etholiadol a Swyddog Canlyniadau ar gyfer Sir Ddinbych.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Mae angen i'r Cyngor benodi Swyddog Cofrestru Etholiadol a Swyddog Canlyniadau i gyflawni'r ddwy rôl hyd nes y penodir Prif Weithredwr newydd.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Penodi Nicola Stubbins yn Swyddog Cofrestru Etholiadol ar gyfer Sir Ddinbych i ddal y swydd nes penodi Prif Weithredwr newydd

3.2. Penodi Nicola Stubbins yn Swyddog Canlyniadau ar gyfer Etholiadau Llywodraeth Leol yn Sir Ddinbych i ddal y swydd nes penodi Prif Weithredwr newydd.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Mae Adran 8 Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 yn ei gwneud yn ofynnol penodi swyddog o'r Cyngor yn Swyddog Cofrestru Etholiadol ar gyfer ei ardal.

4.2. Mae Adran 35 Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 yn ei gwneud yn ofynnol penodi swyddog o'r Cyngor yn Swyddog Canlyniadau Etholiadau Llywodraeth Leol ar gyfer ei ardal.

4.3. Mae'n arfer cyffredin mewn llawer o awdurdodau lleol i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol a'r Swyddog Canlyniadau fod yr un person, sy'n aml yn arwain at benodi uwch swyddog i'r ddwy swydd. Yn Sir Ddinbych yr arfer fu penodi'r unigolyn sy'n Brif Weithredwr i ddal y ddwy swydd.

4.4. Yn dilyn ymadawiad y cyn Brif Weithredwr ar 6 Ebrill 2021 mae angen penodi uwch swyddog o'r Cyngor i ddal y ddwy swydd nes y penodir Prif Weithredwr newydd.

4.5. Mae Erthygl 18 (2)(a) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2007, fel y'i diwygiwyd, yn dynodi'r Swyddog Canlyniadau ar gyfer Etholiadau Llywodraeth Leol fel y Swyddog Canlyniadau ar gyfer Etholaeth Senedd Cymru sydd wedi'i lleoli'n gyfan gwbl yn y Sir. Felly, bydd y Swyddog Canlyniadau ar gyfer Etholiadau Llywodraeth Leol yn Sir Ddinbych hefyd yn cael ei ddynodi'n Swyddog Canlyniadau ar gyfer Etholaeth Senedd Cymru Dyffryn Clwyd.

4.6. Mae Rheoliad 2A Rheoliadau Etholiadau Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (Swyddogaethau Swyddogion Canlyniadau) 2012 yn darparu, pan fydd etholiad Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cael ei gynnal yr un pryd ag etholiad Senedd Cymru, mai Swyddog Canlyniadau etholaeth berthnasol Senedd Cymru fydd y Swyddog Canlyniadau Lleol ar gyfer etholiad Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn yr ardal etholaethol honno.

4.7. Y Swyddog Canlyniadau ar gyfer etholiadau Seneddol yn yr ardal hon yw Uchel Siryf Sir Gadwedig Clwyd, ond dim ond swyddogaethau cyfyngedig y gall yr Uchel Siryf eu cyflawni (yn amodol ar roi'r rhybudd gofynnol), megis derbyn y gwrit gan Glerc y Goron mewn Siawnsri a datgan y canlyniad yn dilyn cyfrif y pleidleisiau. Mae Gorchymyn Swyddogion Canlyniadau (Etholaethau Seneddol) (Cymru) 2007 yn dynodi'r Swyddog Cofrestru Etholiadol ar gyfer Sir Ddinbych fel y Swyddog Canlyniadau Dros Dro ar gyfer Etholaeth Seneddol Dyffryn Clwyd.

4.8. Dylai'r Cyngor nodi bod gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol a'r Swyddog Canlyniadau swyddogaethau statudol, ac fod y cyfrifoldeb am bob rôl yn un o natur bersonol ac ar wahân i'w dyletswyddau fel un o weithwyr y cyngor.  Er eu bod wedi'u penodi a'u cyflogi gan y Cyngor, mae'r ddwy rôl yn “Swyddogion Annibynnol ar ran y Goron”. Er enghraifft, mae'r Swyddog Cofrestru Etholiadol yn gyfrifol yn bersonol am y wybodaeth a gedwir ar y Gofrestr Etholwyr ac mae ganddo drwydded ar wahân i drwydded y Cyngor Sir gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.  Yn yr un modd, gellid cyflwyno deiseb etholiad yn erbyn y Swyddog Canlyniadau ac nid y Cyngor Sir yn y Llysoedd Cyfiawnder Brenhinol yn dilyn canlyniad etholiad

## 5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Nid oes unrhyw effaith uniongyrchol ar y blaenoriaethau corfforaethol.

# 6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid oes unrhyw gostau ychwanegol o ganlyniad i'r penderfyniad hwn.

## 7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen asesiad o effaith ar les ar gyfer yr adroddiad hwn.

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Ni fu unrhyw ymgynghoriadau â Chraffu

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol o'r adroddiad hwn.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae risg na fydd y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswydd statudol i benodi swyddog i'r swyddi hyn os na wneir penodiad. Mae etholiadau Senedd Cymru i fod i gael eu cynnal ar 6ed Mai 2021.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. Adran 8 Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983

11.2. Adran 35 Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983

RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR

| **Cyfarfod** | **Eitem (Disgrifiad / Teitl)** | | **Pwrpas yr Adroddiad** | **Angen Penderfyniad y Cyngor (oes/nac oes)** | **Aelod Arweiniol a Swyddog Cyswllt** |
|---|---|---|---|---|---|
| **18 Mai 2021 CYNGOR BLYNYDDOL** | 1 | Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd Cyngor Sir Ddinbych | Ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor ar gyfer blwyddyn y cyngor 2021–2022. | Nac oes | Y Cynghorydd Richard Mainon / Gary Williams / Steve Price |
| | 2 | Adroddiad Blynyddol y Craffu | Adolygu adroddiad blynyddol Craffu | Nac oes | Y Cynghorydd Graham Timms / Rhian Evans / Steve Price |
| | 3 | Adolygiad Blynyddol o Gydbwysedd Gwleidyddol | Ystyried y trefniadau cydbwysedd gwleidyddol cyfredol, swyddi gwag pwyllgorau a sut mae Cadeiryddion Craffu yn cael eu penodi. | Oes | Y Cynghorydd Richard Mainon / Steve Price |
| | 4 | Achrediad Cyflog Byw Go Iawn | Gofynnodd y Cyngor am adroddiad i ystyried y camau tuag at ddod yn Gyflogwr Cyflog Byw Go Iawn achrededig | Oes | Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill/ Catrin Roberts / Sophie Vaughan |
| | 5 | Polisi Tâl 2021/22 | Adroddiad a Pholisi sy'n gofyn am gytundeb gan y Cyngor Llawn | Oes | Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill/ Catrin Roberts / Sophie Vaughan |
| **6 Gorffennaf 2021** | 1 | Adolygiad Perfformiad Blynyddol | | Oes | Alan Smith / Iolo McGregor |
| | 2 | Amserlen y Pwyllgor 2022 | Cymeradwyo amserlen y pwyllgor | Oes | Y Cynghorydd Richard Mainon / Steve Price / Kath Jones |
| | | | | | |
| **7 Medi 2021** | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| **12 Hydref 2021** | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| **7 Rhagfyr 2021** | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |

## EITEMAU'R DYFODOL

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |
| Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau | Ystyried yr Adroddiad Blynyddol | Cadeirydd y Pwyllgor Safonau / Gary Williams | **I'w gadarnhau** |
| Ymchwiliad i Lifogydd | Pan fydd yr ymchwiliad wedi'i gynnal, caiff adroddiad ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn yn dilyn cais gan y Cyngor Llawn ar 26 Ionawr 2021 | Y Cynghorydd Brian Jones | **I'w gadarnhau** |

***Nodyn ar gyfer Swyddogion - Dyddiadau Cau Adroddiadau'r Cyngor Llawn***

| *Cyfarfod* | ***Dyddiad cau*** | *Cyfarfod* | ***Dyddiad cau*** | *Cyfarfod* | ***Dyddiad cau*** |
|---|---|---|---|---|---|
| | | *18.05.2021* | ***04.05.2021*** | *06.07.2021* | ***22.06.2021*** |
| *07.09.2021* | ***24.08.2021*** | *12.10.2021* | ***28.09.2021*** | *07.12.2021* | ***23.11.2021*** |

Diweddarwyd 25/03/2021 SLW

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol Sesiynau Briffio'r Cyngor

| Cyfarfod | Eitem (Disgrifiad / Teitl) | | Pwrpas yr Adroddiad | Aelod Arweiniol a Swyddog Cyswllt |
|---|---|---|---|---|
| **7 Mehefin 2021** | 1 | Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Cyfamod y Lluoedd Arfog | | Y Cyng. Richard Mainon / Gary Williams/ Stephen Townley, Swyddog Cyswllt y Lluoedd Arfog Cyswllt: |
| | 2 | Canlyniadau Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru ar gyfer Sir Ddinbych | Cyflwyno canlyniadau CMALIC Sir Ddinbych i'r aelodau | Nicola Kneale |
| | | | | |
| **8 Tachwedd 2021** | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

**CYFARFODYDD I'W CADARNHAU:**

CSSR – i drafod yr adolygiad o staff cymorth (Alan Smith) – wedi'i ohirio o gyfarfod 9 Mawrth 2020

Diweddarwyd 29/03/2021 - SLW

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag